Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020/21

## COVID-19: Cymorth i Sefydliadau Celfyddydol (Cyfalaf)

Awst 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw diben y gronfa hon? | 4 |
| Cymhwystra | 5 |
| Am faint allaf i wneud cais? | 6 |
| Cymorth Gwladwriaethol | 6 |
| Terfyn amser | 7 |
| Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth? | 8 |
| Y 'Contract Diwylliannol' | 8 |
| Beth allaf i wneud cais amdano? | 9 |
| Beth yw'r meini prawf sy'n berthnasol i'r gronfa hon? | 9 |
| Beth yw'r broses ymgeisio? | 10 |
| Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb? | 11 |
| Pa dystiolaeth arall fydd yn ofynnol? | 14 |
| Adrodd ar gwblhau | 14 |
| Manylion Banc | 15 |
| Trefniadau Llywodraethiant y Sefydliad | 15 |
| Diffiniadau | 16 |
| Ynghylch Cymorth Gwladwriaethol | 17 |
| Beth os oes gen i gwestiwn? | 18 |
| Rhyddid Gwybodaeth | 20 |
| Gweithdrefn Gwyno | 20 |
| Atal Twyll | 20 |
| Diogelu Data | 20 |


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain a bydd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

## Ynghylch Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru (Cyfalaf) i'r Celfyddydau

- Mae hon yn gronfa i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru (rhai er elw ac nid er elw) y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt ac sy'n ceisio cynnal eu hunain hyd nes y gallant ailddechrau gweithgarwch hygyrch i'r cyhoedd yn 2021 a'r tu hwnt.
- Gallwch wneud cais am grant nad yw'n ad-daladwy o hyd at £50,000 tuag at wariant cyfalaf untro.
- Mae COVID-19 wedi effeithio ar lawer o sefydliadau. Ond mae'n bwysig i arian gael ei roi i'r rheiny sydd â'r angen mwyaf taer. Felly rydym yn gofyn ichi ystyried yn ofalus a oes angen ichi wneud cais ar hyn o bryd.
- Pecyn achub ac adferiad yw hwn yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnig cyfle i helpu i sicrhau newid trawsnewidiol i gyrhaeddiad ac effaith y celfyddydau. Disgwylir ichi ymrwymo i'r 'Contract Diwylliannol' newydd i hybu ffyrdd newydd o weithio a sicrhau mwy o amrywiaeth yn rheolwyr, gweithlu a rhaglennu'ch sefydliad.
- Disgwylir i sefydliadau fydd yn cael eu cynorthwyo trwy'r gronfa hon ddangos ymrwymiad blaengar i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.
- Disgresiynol yw'r holl gyllid o'r Gronfa hon ac mae'n debyg y bydd cystadleuaeth am yr arian sydd ar gael. Nid yw cyflwyno cais yn gwarantu'r holl arian na rhan o'r arian mae arnoch ei angen.
- Bwriedir i'r broses fod yn llai manwl ac yn gyflym. Ein nod yw ymdrin â cheisiadau cyn pen 6 wythnos ar ôl y dyddiadau cau. Os yw nifer y ceisiadau a gawn yn golygu nad oes modd gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Ar ôl Mawrth 2021 bydd yn ofynnol ichi gyflwyno Adroddiad Cwblhau byr yn cadarnhau sut y defnyddiwyd yr arian. Bydd yr Adroddiad Cwblhau hwn yn ysgogi unrhyw daliad terfynol o'ch dyfarniad. Bydd hefyd yn ofynnol ichi adrodd ar sut yr ydych wedi cyflawni'r 'Contract Diwylliannol' yn ddiweddarach yn 2021.
- £2 miliwn Cyfalaf yw'r gyllideb ar gyfer y Gronfa hon. Mae'n rhan o Gronfa Adferiad Diwylliannol 2020/21 Llywodraeth Cymru sy'n werth £53 miliwn.

## Beth yw diben y gronfa hon?

Diben y gronfa yw cynorthwyo sefydliadau (nid yw'r gronfa'n agored i unigolion) i brynu cyfarpar cyfalaf neu wneud mân waith i liniaru effaith COVID-19. Gall hyn gynnwys gwaith mae ei angen i wneud adeiladau neu gyfleusterau'n ddiogel rhag COVID er mwyn ichi ailagor neu ailddechrau gweithgarwch.

Os nad yw'ch cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol ag addasu gwaith eich sefydliad mewn ymateb i COVID-19, ni ddylech wneud cais i'r gronfa hon. Mae'n bosibl y gallwch wneud cais i un o gronfeydd cyfalaf eraill Cyngor y Celfyddydau. Os ydych chi eisiau mynd i'r afael â phroblemau mynediad neu wella'ch cynaliadwyedd amgylcheddol, mae'n bosibl y bydd ein cronfeydd Cyfalaf eraill sydd ar agor yn fwy addas at eich anghenion. Gellir gweld manylion y rhain ar ein gwefan.

Ni allwn gynorthwyo pawb, felly bydd y gronfa'n cael ei thargedu at y rheiny sy'n cynnal ac yn hybu gweithgarwch celfyddydol hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru.

Ni fydd y cyllid yn dyblygu unrhyw fath arall o gyllid gan Lywodraeth Cymru nad yw'n ad-daladwy ac sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae'n hanfodol inni allu cynorthwyo'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf taer ar hyn o bryd. Bydd angen i geisiadau fodloni'r meini prawf a gyhoeddir. Os bydd llawer gormod o geisiadau am y cyllid sydd ar gael, y meini prawf hyn fydd y brif sail ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Caiff y meini prawf eu hesbonio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

## Cymhwystra

- Gall sefydliadau wneud cais os ydynt:
    - o Gymru ac â chyfansoddiad ffurfiol fel un o'r canlynol:
    - Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
    - elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
    - Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
    - Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC)
    - Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfrannau (gweler y meini prawf o ran budd i'r cyhoedd isod)
    - Awdurdod lleol, Prifysgol neu Gorff Cyhoeddus arall sy'n cynnal gweithgarwch diwylliannol
- nid yw sefydliadau anghorfforedig neu bartneriaethau yn gymwys i gael y cyllid cyfalaf hwn
- yn cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru trwy ddarparu gweithgareddau creadigol y gall pobl eu mwynhau a chymryd rhan ynddynt
- yn gweithio gan fwyaf (50%+) yn un o'r disgyblaethau yr ydym yn eu cynorthwyo (cerddoriaeth, dawns, theatr, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a chymhwysol, celfyddydau cyfun, Celfyddyd Ddigidol)
- yn gallu dangos hanes o lwyddo (yn y tair blynedd ddiwethaf) o ddarparu gweithgarwch celfyddydol hygyrch i'r cyhoedd sydd â budd i'r cyhoedd
- yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith (60%+) yng Nghymru
- yn gweithredu gyda chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru, ac yn meddu ar gyfrif banc yn y Deyrnas Unedig yn enw'r sefydliad sydd ag o leiaf dau berson a all awdurdodi trafodion (gweler yr adran ar gyfrifon banc)
- heb fod yn torri unrhyw gytundeb ariannol nac ag unrhyw ofynion heb eu bodloni ar unrhyw gyllid arall oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru neu Lywodraeth Cymru

Dylech nodi:

Nid yw'r Gronfa hon yn cynorthwyo:

- Unigolion, ymarferwyr ar eu liwt eu hunain ac unig fasnachwyr

- Gwyliau a Digwyddiadau
- Lleoliadau a bandiau cerddoriaeth llawr gwlad, lleoliadau comedi, cyhoeddi, ffilm a theledu, diwydiannau creadigol
- Sinemâu annibynnol (ond byddwn yn cynorthwyo sefydliadau celfyddydol sy'n bodloni'r meini prawf eraill yn y canllawiau hyn ac sy'n cyflwyno ffilmiau fel rhan fach o raglen aml-gelfyddydol)

Mae cymorth i'r sectorau hyn yn cael ei gyllido trwy rannau eraill o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a reolir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Nod y gronfa hon yw cydategu mesurau eraill i ymateb i COVID-19 er mwyn cynorthwyo busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol. Ni ddylai ddyblygu'r cymorth hwnnw.

## Am faint allaf i wneud cais?

Grant gwerth rhwng £500 a £50,000 i'w ddefnyddio erbyn 31 Mawrth 2021.

Dylech nodi mai terfyn uchaf yw'r trothwy hwn yn hytrach na tharged i anelu ato. Dylech nodi'n glir yn eich cais pam mae arnoch angen y swm o arian yr ydych wedi gofyn amdano.

Dylai'r swm y gwnewch gais amdano fod yn briodol i faint eich sefydliad. Dylech farnu drosoch eich hun faint y byddwch yn gwneud cais amdano. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y ceisiadau at ei gilydd am lai na £10,000, onid ydych yn lleoliad mwy y bydd angen iddo ystyried addasu mwy o fannau cyhoeddus a'r rheiny'n fwy o faint. Dylech siarad â ni ar grantiau@celf.cymru cyn gwneud cais am fwy na £10,000.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall sefydliadau ofyn am ganiatâd i wneud cais am fwy na £50,000. Dylech anfon y cais hwn at grantiau@celf.cymru gyda sail resymegol glir. Rhaid gwneud hyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn terfyn amser y gronfa.

Nid oes angen ichi ddarparu arian cyfatebol i gefnogi'ch cais, er y gallai hyn gryfhau'ch cais os gallwch wneud hynny.

## Cymorth Gwladwriaethol

Weithiau mae grantiau mwy yn Gymorth Gwladwriaethol. Diffinnir Cymorth Gwladwriaethol fel unrhyw fantais a roddir gan awdurdodau cyhoeddus trwy adnoddau'r wladwriaeth mewn modd detholus i unrhyw sefydliad a allai o bosibl ystumio cystadleuaeth a masnach yn yr Undeb Ewropeaidd. Er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r cytundeb trosiannol yn ei gwneud yn ofynnol i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol fod yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig hyd 31 Rhagfyr 2020.

Gallwch weld mwy o wybodaeth am Gymorth Gwladwriaethol yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

**Nodwch:**

Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth uchod. Efallai y byddwch eisiau cael cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol.

## Terfyn amser

Mae'r gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau ar **ddydd Llun 17 Awst 2020** a bydd angen i ymgeiswyr fod wedi cyflwyno cais ar-lein heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser sef **5.00pm ar ddydd Mercher 9 Medi 2020.**

## Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth?

Mae Cymru'n wynebu nifer fawr o heriau cymdeithasol ac economaidd. Gwaddol y gorffennol yw llawer o'r rhain. Ond wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – mae penderfyniad newydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd y genhedlaeth hon, trwy ddifaterwch neu ddiofalwch, yn eu gadael yn heriau i'r genhedlaeth nesaf.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn wlad deg, lewyrchus a chynaliadwy, sy'n gwella ansawdd bywyd pobl yn ei holl gymunedau ac sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd angen i'r sefydliadau y byddwn yn eu cyllido ddangos sut maent yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnânt, gan gynnwys eu llywodraethiant a'u gweithlu, a thrwy'r gweithgarwch maent yn ei gyflwyno.

Rydym ni eisiau i fwy o bobl mewn cymunedau a lleoedd sy'n cael eu gwasanaethu llai gan y celfyddydau gael cyfleoedd i fwynhau a chymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol. Rydym yn rhoi pwys arbennig ar sefydliadau sy'n dangos ymrwymiad ymarferol i weithio gyda a thros bobl fyddar ac anabl, pobl dduon a phobl groenlliw nad ydynt yn ddu, a siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn disgwyl ichi ddangos yn eich cais sut yr ydych chi, fel sefydliad, wedi ystyried y materion hyn ac yn bwriadu ymdrin â nhw yn y dyfodol.

## Y 'Contract Diwylliannol'

Disgwylir i'r rheiny fydd yn cael cymorth o'r gronfa hon ymrwymo i 'Gontract Diwylliannol' Llywodraeth Cymru.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw Cymru sy'n deg, yn llewyrchus ac yn hyderus, sy'n gwella ansawdd bywyd ei phobl yn holl gymunedau'r wlad. Bwriad datblygu 'Contract Diwylliannol' yw annog ymgeiswyr i fabwysiadu ymrwymiadau newydd sy'n sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gyda phwrpas cymdeithasol. Bydd hyn yn adeiladu ar 'Gontract Economaidd' Llywodraeth Cymru sy'n bodoli eisoes.

Mae'r gweithgarwch y byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr ei ddangos yn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- Gwaith Teg – sicrhau cyfraddau cyflog priodol a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i gyflogi a chynnal gweithwyr ar eu liwt eu hunain
- Amrywiaeth ymysg aelodau byrddau a gweithluoedd – cynyddu, ledled y sefydliad ac yn y gwaith rydych yn ei gyflawni, nifer y bobl dduon, pobl groenlliw nad ydynt yn ddu, pobl fyddar ac anabl a phobl â nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, sy'n cael eu cynnwys

- Staff a gyflogir o hyd yn helpu i gynorthwyo â mentrau ehangach (er enghraifft olrhain cysylltiadau i gynorthwyo â mesurau "Profi, Olrhain, Diogelu")
- Cynorthwyo â mentrau'r celfyddydau ac iechyd, gan gynnwys presgripsiynau cymdeithasol
- Cynaliadwyedd amgylcheddol – lleihau effaith amgylcheddol eich gweithgareddau gymaint ag sy'n bosibl

## Beth allaf i wneud cais amdano?

Gall y cyllid dalu am amrywiaeth o wahanol brosiectau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cyfarpar mae eu hangen ar adeilad i'w wneud yn ddiogel i'w ailagor i'r cyhoedd/staff
- Mân waith mae ei angen ar adeilad i'w wneud yn ddiogel i'w ailagor i'r cyhoedd/staff
- Cyfarpar a fydd yn caniatáu ichi addasu'ch arferion gwaith i hwyluso mwy o weithio o bell
- Cyfarpar a allai ganiatáu ichi addasu'ch 'cynnyrch' at ffordd wahanol o'i gyflwyno

Gall sefydliadau wneud cais i'r gronfa hon os ydynt hefyd yn gwneud cais i'n Cronfa Adferiad Diwylliannol ar wahân. Fodd bynnag, ni ddylech gynnwys ceisiadau am gyllid cyfalaf yn y ddau gais. Dylech hefyd nodi a fyddai ymateb negyddol i un cais yn effeithio ar eich gallu i gyflawni'r gwaith yn y cais arall.

## Beth yw'r meini prawf sy'n berthnasol i'r gronfa hon?

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol:

- pa mor fawr a thaer yw'r angen ariannol fel y'i dangosir yn eich cais
- y cyfraniad mae'ch sefydliad yn ei wneud i fywyd diwylliannol Cymru trwy ddarparu gweithgareddau creadigol y gall pobl eu mwynhau a chymryd rhan ynddynt
- ansawdd a chryfder eich cynigion ar gyfer mabwysiadu strategaethau blaengar sy'n:
    - gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg yng ngweithrediadau'ch sefydliad yn y dyfodol
    - gwreiddio cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yng ngweithrediadau'ch sefydliad yn y dyfodol

- cynnwys cyfleoedd ar gyfer gweithwyr creadigol ar eu liwt eu hunain ac artistiaid unigol

- tystiolaeth y telir i gyflogeion yr isafswm cyflog cenedlaethol ac y telir, i weithwyr ar eu liwt eu hunain, o leiaf y ffi isaf y cytunwyd arni gyda'r undeb llafur perthnasol neu'r gymdeithas broffesiynol berthnasol

## Beth yw'r broses ymgeisio?

1. Gofynnwn ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar-lein syml, a geir yma.
   Os na allwch gyrchu'r ffurflen ar-lein, dylech gysylltu â ni ar grantiau@celf.cymru.

2. Ar ôl inni gael eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch.

3. Byddwn yn penderfynu a ydych chi'n gymwys trwy adolygu'r wybodaeth a roddir. Efallai y bydd angen inni ofyn am wybodaeth ychwanegol.

4. Byddwn yn adolygu'ch cais a'ch gwybodaeth gyllidebol i sicrhau eu bod yn bodloni ein blaenoriaethau a bod y ffigurau'n briodol i'r math o weithgarwch a'i faint.

5. Ar ôl cymeradwyo'ch cais, byddwn yn gofyn ichi lenwi a dychwelyd ein ffurflen Derbyn Dyfarniad a Manylion Banc.

6. Ar ôl ichi ddychwelyd eich ffurflen derbyn dyfarniad ac ar ôl inni wirio'ch manylion banc byddwn yn talu ôl-daliadau wedi inni gael anfonebau cymwys.

Os yw'ch amgylchiadau'n galw am amserlen taliadau wahanol, gallwn drafod hyn gyda chi ar ôl cadarnhau'ch dyfarniad.

Nodwch:

Byddwn yn ymateb i'r holl geisiadau cyn pen 6 wythnos ar ôl y terfyn amser a byddwn yn ceisio ymateb yn gyflymach na hynny lle bo'n bosibl. Os bydd y pandemig COVID-19 yn lleihau ein capasiti, byddwn yn cysylltu â chi i drafod amserlen ddiwygiedig.

## Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb?

Mae'r ffurflen gais ar y diwyg a ddangosir isod:

1. Croeso

   Gwybodaeth ragarweiniol yn cynnig cyngor cyffredinol ar sut i gyflwyno'ch cais.

2. Ynghylch eich sefydliad

   Bydd arnom ni angen rhywfaint o wybodaeth sylfaenol amdanoch chi a'ch sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys eich **rhif cofrestru** a ddarparwyd gan Dŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau neu'r Gofrestr Cymdeithasau Cydfuddiannol Gyhoeddus.

   Bydd arnom angen **Cod NACE** (Cyfundrefn Enwi Gweithgareddau Economaidd) hefyd. Hwn yw'r dosbarthiad ystadegol gweithgareddau economaidd Ewropeaidd. Mae NACE yn grwpio sefydliadau yn ôl eu gweithgareddau busnes. Gellir gweld rhagor o fanylion am godau NACE ar:
   https://ec.europa.eu/competition/mergers/cases/index/nace_all.html

3. Gwybodaeth am gydraddoldeb yn y sefydliad

   Rydym yn defnyddio'r data a ddarperir gan bawb sy'n ymgeisio am grantiau i'n helpu i wneud yn siŵr bod ein cyllid yn cyrraedd amrywiaeth fawr o bobl a sefydliadau.

4. Cysylltu â chi

   Rhowch inni fanylion cyswllt y bobl berthnasol yn eich sefydliad.

5. Y swm y gofynnir amdano

   Dywedwch wrthym ni faint o arian rydych chi'n gwneud cais amdano.

6. Ynghylch eich cynnig

   6.1 **Dywedwch wrthym ni am eich sefydliad. Dylech gynnwys gwybodaeth sy'n caniatáu inni gael darlun o'r ffordd rydych chi'n gweithio.**

   Dylech chi gynnwys:

   - disgrifiad byr o'ch gweithgarwch
   - maint a graddfa'ch gweithrediadau (gan gynnwys nifer y staff ac a ydych chi'n gweithio o adeilad)
   - Eich incwm/costau 'normal' am y flwyddyn (inni weld 'maint' eich gweithrediadau)

6.2 **Dywedwch wrthym ni am waith eich sefydliad a'i hanes o ddarparu cyfleoedd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.**

Beth fu math a phatrwm bras eich gwaith blaenorol? Sut mae'r cyhoedd wedi cael budd o'r hyn yr ydych yn ei wneud? Pa gyflawniadau yn benodol hoffech chi ddweud wrthym ni amdanynt? Sut mae'ch sefydliad yn cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru trwy ddarparu gweithgareddau creadigol y gall pobl eu mwynhau a chymryd rhan ynddynt?

6.3 **Dywedwch wrthym ni sut mae COVID-19 wedi effeithio ar eich busnes a pham mae arnoch angen y cyllid hwn**

Dywedwch wrthym beth bynnag y teimlwch y gallwch am yr hyn sydd wedi digwydd i sefyllfa'ch sefydliad o ganlyniad i COVID -19. (Ni allwn eich cynorthwyo trwy'r gronfa hon os nad yw'r newid yn eich amgylchiadau'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.)

6.4 **Sut fyddwch chi'n defnyddio'r cyllid hwn i gynnal eich sefydliad?**

Pa gyfarpar/cymorth cyfalaf ydych chi'n gwneud cais amdano? Dylech restru pob eitem a'r gost unigol. Dylech hefyd gadarnhau y byddwch yn gallu darparu 3 dyfynbris am unrhyw eitemau neu grŵp o eitemau sy'n costio mwy na £2,500.

6.5 **Sut fyddwch chi'n caffael eich cyfarpar neu wasanaethau ar gyfer mân waith? Pwy fydd yn rheoli'r broses hon?**

Mae angen inni fod yn hyderus ynghylch y ffordd y byddwch yn dewis y cyfarpar gorau a bod gennych chi'r sgiliau i gyflawni'r gwaith yn effeithiol. Dywedwch wrthym ni hynny allwch chi ynghylch sut y byddwch yn gwneud hyn a pha brofiad blaenorol sydd gennych o brosiectau cyfalaf.

6.6 **Oes gennych chi unrhyw arian cyfatebol i'w gyfrannu at y prosiect?**

Nid yw hyn yn hanfodol ond gallai cymorth arall helpu'ch siawns o lwyddo gyda'r gronfa hon.

6.7 **Ydych chi wedi gwneud ceisiadau i unrhyw ffynonellau cyllid eraill mewn perthynas â'r prosiect hwn ac a oes angen i'r rhain lwyddo er mwyn bwrw ymlaen â'r 'prosiect'?**

Dywedwch wrthym ni a ydych chi wedi gwneud ceisiadau i unrhyw ffynonellau cyllid eraill mewn perthynas â'r prosiect hwn ac a oes angen i'r rhain lwyddo er mwyn bwrw ymlaen â'r 'prosiect'?

Dyma ble dylech ddweud wrthym ni a ydych chi wedi gwneud ceisiadau i unrhyw gronfeydd COVD-19 eraill sydd gan Gyngor y Celfyddydau, beth yw statws y rhain ac a oes unrhyw ryngddibyniaeth rhwng eich ceisiadau.

6.8 Bodloni ein blaenoriaethau – hybu'r 'Contract Diwylliannol'

Dywedwch wrthym ni am yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd, neu'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol agos, i wella amrywiaeth eich sefydliad a'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw. Dywedwch wrthym ni hefyd am yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd, neu'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol agos, i wreiddio cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn eich sefydliad.

Dylech ddisgrifio'n eglur yr hyn y byddwch yn ei wneud i wella cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn eich sefydliad chi ac yn y sector diwylliannol a dylech gynnwys targedau perthnasol y byddwch yn eu cyrraedd yn ystod y cyfnod. Dylai hyn hefyd, lle bo'n berthnasol, gynnwys ystyried mentrau'r Celfyddydau ac Iechyd, lleihau i'r eithaf neu liniaru effeithiau amgylcheddol negyddol, hybu'r Gymraeg, sicrhau cyfraddau cyflog priodol i weithwyr a chynyddu cyfleoedd i weithwyr ar eu liwt eu hunain.

7. Iaith

Dylech gynnwys manylion yr iaith mae'ch sefydliad yn ei defnyddio fel arfer wrth gyflawni ei weithgarwch.

8. Gwybodaeth am gydraddoldeb yn eich sefydliad

9. Dylech gadarnhau y telir i'ch cyflogeion yr isafswm cyflog cenedlaethol ac y telir i weithwyr ar eu liwt eu hunain o leiaf y ffi isaf y cytunwyd arni gyda'r undeb llafur perthnasol neu'r gymdeithas broffesiynol berthnasol.

Faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn fydd y cyllid hwn yn eu diogelu? (Swydd gyfwerth ag amser llawn yw un o 30 awr neu fwy yr wythnos)

**Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol** yw'r isafswm cyflog yr awr y mae gan bron pob gweithiwr hawl iddo o dan y gyfraith. Ym mis Ebrill 2016, cyflwynwyd Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr Isafswm Cyflog yn dal i fod yn berthnasol i weithwyr 24 oed ac iau. Mae'n drosedd i gyflogwyr beidio â thalu i rywun yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, fel bo'n briodol, neu i ffugio cofnodion tâl. Os nad ydych chi'n talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol, ni allwn ystyried eich cyllido.

Mae rhagor o arweiniad ar gyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gael ar: https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

**Y Cyflog Byw:** Y Cyflog Byw yw cyfradd yr awr wirfoddol a bennir gan y Living Wage Foundation (www.livingwage.org.uk) ar sail costau byw. Mae'r Living Wage Foundation yn annog sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig, ym mhob sector ac o bob maint, i ddod yn gyflogwyr cyflog byw achrededig.

https://businesswales.gov.wales/news-and-blogs/news/living-wage-foundation

| Pwy/Dolen | Ar gyfer |
|---|---|
| a-n | The Artists Information Company ar gyfer artistiaid gweledol |
| AOP | Association of Photography |
| BECTU | Broadcasting, Entertainment, Communications and Theatre Union ar gyfer staff technegol |
| Equity | Ar gyfer actorion, cantorion a dawnswyr |
| ISM | Incorporated Society of Musicians |
| itc | Independent Theatre Council ar gyfer ymarferwyr theatr |
| Musicians' Union | Musicians' Union ar gyfer cerddorion |
| WGGB | The Writers' Guild of Great Britain |
| UK Theatre | Ar gyfer staff theatr a cherddorion |

10. Eich gwybodaeth gyllidebol

Rhaid ichi ddefnyddio'r templed a lawrlwythir sydd ar gael yn ein ffurflen gais.

## Pa dystiolaeth arall fydd yn ofynnol?

- Tystiolaeth fod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sy'n bodloni ein gofynion.
- Tystiolaeth fod gan eich sefydliad strwythur llywodraethiant sy'n bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer y gronfa hon.

Gweler isod am fwy o wybodaeth.

## Adrodd ar gwblhau

Bydd angen ichi roi adroddiad llawnach ar sut yr ydych wedi cyflawni'r Contract Diwylliannol ar ddyddiad diweddarach yn 2021/22, ynghyd â chadarnhad o nifer y swyddi a ddiogelwyd a nifer yr unigolion/ymarferwyr ar eu liwt eu hunain a gynorthwywyd.

Byddwn yn asesu sut yr ydych wedi cyrraedd y targedau yn eich contract diwylliannol, gan gynnwys y rhai a nodasoch wrth lenwi'ch ffurflen gais. Os nad ydych wedi cyrraedd y targedau mae'n bosibl y byddwn yn hawlio'n ôl rywfaint o'r cyllid a ddyfarnwyd neu'r cwbl ohono.

## Manylion Banc

Bydd angen inni weld tystiolaeth:

- Bod y cyfrif yn enw eich sefydliad
- Y gall o leiaf dau o bobl awdurdodi trafodion
- Eich bod yn darparu cod didoli'r banc a rhif y cyfrif

Bydd angen i'r dystiolaeth hon fod:

- Yn llai na 2 flwydd oed ar ddyddiad y cais
- yn ddogfen swyddogol gan y banc, er enghraifft:
    - ffotograffau o bob cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enw pob llofnodwr, enw'r cyfrif, ei rif a'r cod didoli. (Nid yw rhai cardiau banc yn dangos yr holl wybodaeth hon felly os yw hyn yn wir, bydd angen ichi ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n cysylltu'ch sefydliad a manylion y cyfrif)
    - llythyr neu neges e-bost sy'n dangos yn glir y cafodd ei h/anfon gan eich banc yn cadarnhau'r wybodaeth ofynnol.
    - sgrinluniau o bob llofnodydd wedi'i fewngofnodi i'ch bancio ar-lein yn dangos ei enw ynghyd â'r wybodaeth am gyfrif banc y sefydliad.

Mae'n bosibl y bydd angen ichi gynnwys nifer o ddogfennau er mwyn sicrhau y gellir cysylltu'r wybodaeth ofynnol yn glir â manylion y cyfrif.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn gwirio'r wybodaeth hon trwy ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn yn gallu rhyddhau unrhyw daliadau ichi hyd nes y byddwn wedi cael a gwirio'r wybodaeth hon.

Nodwch:

Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu gyda phaslyfr yn unig. Ni fydd angen i gyrff statudol (megis awdurdodau lleol, cynghorau tref, byrddau iechyd neu brifysgolion) ddarparu'r wybodaeth hon. Yn yr achosion hyn, rhaid i fanylion y cyfrif a ddarperir fod yn enw'r sefydliad neu enw ei awdurdod lleol.

## Trefniadau Llywodraethiant y Sefydliad

[**Nodwch:** lle bo angen llofnodion isod, rydym yn cydnabod nad oes angen llofnod ffisegol ar bob dogfen. Yn yr achosion hyn, byddwn yn eu derbyn os ydynt wedi'u ffeilio gyda'r corff perthnasol (e.e. Tŷ'r Cwmnïau)]

Mae angen inni wneud yn siŵr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n briodol. Os nad ydych erioed wedi gwneud cais inni am gyllid o'r blaen:

- bydd angen ichi gynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen llywodraethu pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais.

Os ydych wedi gwneud cais inni am gyllid yn y gorffennol:

- Bydd angen ichi gynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen llywodraethu os nad ydych wedi cyflwyno'ch dogfen llywodraethu inni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu os yw wedi cael ei diweddaru ers y tro diwethaf ichi wneud cais.

Os ydych yn Gwmni wedi'i Gyfyngu drwy Warant, Sefydliad Corfforedig Elusennol, Cwmni Buddiant Cymunedol neu Ymddiriedaeth Elusennol:

- Rhaid i'ch sefydliad fod ag o leiaf 2 Gyfarwyddwr/ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad

A rhaid i'ch dogfennau llywodraethu:

- fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau Gyfarwyddwr/ymddiriedolwr
- fod wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau
- nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal
- cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau
- cynnwys cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod i gael cyfarwyddyd)

Os ydych yn Gwmni wedi'i Gyfyngu drwy Gyfrannau:

- rhaid i'ch sefydliad fod ag o leiaf 2 Gyfarwyddwr/ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.

A rhaid i'ch dogfennau llywodraethu:

- fod wedi'u llofnodi gan o leiaf dau Gyfarwyddwr/ymddiriedolwr
- fod wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau.
- nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i gael eu cynnal
- Cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau

## Diffiniadau

Dyma'n diffiniad ni o **ymddiriedolwyr sy'n perthyn i'w gilydd:**

- Aelodau o’r teulu sy’n ymestyn i fam, tad, brawd, chwaer, mab, merch, nain/mam-gu neu daid/dad-cu.
- Perthnasau trwy briodas sy’n ymestyn i briod, mab yng nghyfraith neu ferch yng nghyfraith, a mam yng nghyfraith neu dad yng nghyfraith.

Mae **Cymal Diddymu** yn nodi’r hyn fydd yn digwydd i asedau sefydliad sy’n weddill (sy’n cynnwys arian parod ac asedau eraill) os caiff y sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru’n gwneud cymal diddymu yn ofynnol, sy’n nodi y caiff unrhyw asedau sy’n weddill eu trosglwyddo i sefydliad sydd ag amcanion tebyg.

Mae **Clo Asedau** yn sicrhau y caiff asedau sefydliad (gan gynnwys unrhyw elw neu warged arall a gynhyrchir gan ei weithgareddau) eu defnyddio er budd y gymuned.

Nid oes rhaid bod y celfyddydau wedi’u nodi yn amcanion eich sefydliad fel rhan o’i ddogfen llywodraethu, ond rydym yn hybu hyn yn gryf, ac mae’n bosibl y bydd yn rhoi inni sicrwydd ychwanegol ynghylch nodau artistig yr ymgeisydd.

## Ynghylch Cymorth Gwladwriaethol

Cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw fantais a roddir gan awdurdodau cyhoeddus trwy adnoddau’r wladwriaeth mewn modd detholus i unrhyw sefydliadau a allai o bosibl ystumio cystadleuaeth a masnach yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ceir diffiniad llawn o ‘Gymorth Gwladwriaethol’ yma.

Dylech ddarllen y rheoliadau a nodir ar y wefan er mwyn penderfynu a oes angen cliriad Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â’ch gweithgarwch arfaethedig.

Mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol yn rheoleiddio dyfarnu cymorthdaliadau gwladwriaethol i sefydliadau sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd (sydd weithiau’n gallu cynnwys y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant). Er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae’r cytundeb pontio yn ei gwneud yn ofynnol i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol fod yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig hyd 31 Rhagfyr 2020.

Gall mesurau a ystyrir yn rhai "dim cymorth" gael eu cyllido heb i ragor o waith gweinyddu fod yn ofynnol. Bydd mesur yn cydymffurfio lle gellir dangos nad yw derbynnydd y grant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau masnachol (gan gynnwys cynhyrchu incwm o berfformiadau). Mae yna sefyllfaoedd lle canfuwyd dim cymorth hefyd lle codir tâl am weithgaredd ond dim ond ‘cyfran fach’ o’r gwir gostau yw hyn.

Bydd mesur hefyd yn cydymffurfio lle na fydd unrhyw effaith ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau, er bod hyn yn brawf caeth. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am opsiynau dim cymorth yma.

Gall mesurau sydd yn "Gymorth Gwladwriaethol" gael eu cyllido o hyd, ar yr amod y gellir dangos bod rhai amodau penodol wedi cael eu cyflawni.

1. De Minimis
   Mae De Minimis yn caniatáu dyfarnu hyd at €200,000 o Gymorth Gwladwriaethol mewn cyfnod o dair blynedd. Er mwyn cydymffurfio â'r esemptiad hwn, bydd angen i'ch sefydliad chi (gan gynnwys unrhyw grŵp busnes ehangach) gadarnhau bod y Cymorth Gwladwriaethol a gafwyd o'r dyfarniad hwn a'r holl gymorth De Minimis arall a gafwyd yn y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol yn €200,000 neu lai.

2. Swm cyfyngedig o gymorth o dan y Fframwaith Dros Dro
   Mae Cynllun Fframwaith Dros Dro y Deyrnas Unedig yn caniatáu dyfarnu Cymorth Gwladwriaethol hyd at €800,000 ar yr amod bod rhai gofynion yn cael eu bodloni gan gynnwys:
   - nad yw cyfanswm y cymorth o'r math hwn a gafodd y sefydliad yn fwy na'r trothwy o €800,000 (£732,320 ym mis Gorffennaf 2020) rhwng 6 Ebrill 2020 a 31 Rhagfyr 2020;
   - bod pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar y derbynnydd; ac
   - nad oedd y derbynnydd yn "gwmni mewn trafferthion" ar 31 Rhagfyr 2019

3. Erthygl 53 o'r Esemptiad Bloc Cyffredinol
   Bydd dyfarniad sy'n bodloni'r holl ofynion perthnasol ym Mhennod 1 ac Erthygl 53 o'r Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol (Cymorth i ddiwylliant a chadwraeth treftadaeth) yn cydymffurfio â'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol.

Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth uchod. Efallai y bydd sefydliadau eisiau cael cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol, ond nid yw hyn yn ofyniad i ymgeiswyr.

## Beth os oes gen i gwestiwn?

Mae natur y gronfa hon yn dibynnu ar uniondeb y ceisiadau. Dylech sicrhau eich bod yn ateb yr holl gwestiynau'n llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwch yn ateb cwestiwn gyda gwybodaeth anghywir, mae'n bosibl y bydd angen inni hawlio cyllid yn ôl ar ddyddiad diweddarach neu gymryd camau eraill os byddwn yn amau twyll.

Os ydych chi eisiau gwybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu os hoffech drafod cwestiynau eraill am y gronfa hon, dylech gysylltu â'n Gwasanaeth Ymholiadau.

Gallwch wneud hyn trwy e-bost, trwy ein gwefan neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: Llenwi ffurflen ar ein gwefan

Twitter: Anfon trydariad atom @Celf_Cymru

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad yn fuan iawn.

Os ydych chi eisiau i ni eich ffonio'n ôl, rhowch eich rhif cyswllt a byddwn yn trefnu cysylltu â chi cyn gynted ag sy'n bosibl.

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i fod mor agored ag sy'n bosibl. Rydym yn credu bod gan y cyhoedd hawl i wybod sut yr ydym yn gwario arian cyhoeddus a sut yr ydym yn gwneud ein penderfyniadau cyllido. Gallwch weld manylion ein polisi yma.

Rydym wedi ein rhestru fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. O dan y gyfraith, mae'n bosibl y bydd rhaid inni roi eich dogfennau ymgeisio a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn i'w gweld o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'n bosibl na fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau mae un neu ragor o'r esemptiadau o dan y Ddeddf yn ymwneud â nhw. Gweler y wefan Rhyddid Gwybodaeth i gael gwybod am ryddid gwybodaeth yn gyffredinol a'r esemptiadau.

## Gweithdrefn Gwyno

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch cais, gallwch weld copi o'n Gweithdrefn Gwyno ar ein gwefan yma.

Nodwch na allwch gwyno oni bai eich bod yn credu nad ydym wedi dilyn ein proses gyhoeddedig wrth ymdrin â'ch cais. Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Atal Twyll

Bydd gwybodaeth a gesglir trwy'r broses ymgeisio yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio hunaniaeth.  Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y gellid defnyddio'ch gwybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd isod.

## Diogelu Data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o rwymedigaethau a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r Rheoliad yn rheoleiddio'r ffordd yr ydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau chi mewn perthynas â'r ffordd yr ydym yn rheoli'ch data.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd cyhoeddedig.

Ni fyddwn yn datgelu data personol na data personol sensitif, (fel y diffinnir termau yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) heb eich cydsyniad oni fo rhwymedigaeth drechol yn berthnasol (e.e. rhwymedigaeth gyfreithiol).